CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

CABINET GWEITHREDOL
25 Mawrth 2025

AWDUR ADRODDIAD:	**Cynghorydd Sir Pete Roberts** **Aelod Portffolio ar gyfer Powys sy'n Dysgu**
TEITL ADRODDIAD:	**Papur Cynnig Ysgol Calon Cymru**
ADRODDIAD AR GYFER:	**Penderfyniad**

1. Diben

1.1 Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet a Llywodraeth Cymru i Raglen Amlinellol Strategol (SOP) newydd yn 2024, mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried opsiynau o ran sut i symud ymlaen gyda chynlluniau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Calon Cymru.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno arfarniad opsiynau sy'n amlinellu'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ac yn nodi cynnig i'w ddatblygu, ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau'r broses statudol ar y cynigion canlynol:

Cam 1 (Medi 2027):

- Sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (4-18) ar gampws presennol Ysgol Calon Cymru Llanfair-ym Muallt.
    - I ddechrau, byddai'r ysgol yn rhannu campws Llanfair-ym-Muallt gydag Ysgol Calon Cymru, gan ddefnyddio rhan o'i hadeilad a rhannu rhai cyfleusterau.
    - Byddai hwn yn drefniant dros dro hyd nes y bydd buddsoddiad cyfalaf wedi bod ar safle Llandrindod o dan Cam 2.

- Newid categori iaith Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i Saesneg.
    - Byddai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn symud i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed.

- Newid categori iaith Ysgol Calon Cymru o ddwy ffrwd i gyfrwng Saesneg.
    - Byddai disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027 yn trosglwyddo i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed. Byddai ffrwd Gymraeg

Ysgol Calon Cymru yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Medi 2029.

Cam 2 (Medi 2029 ar y cynharaf):

- Yn dilyn buddsoddiad cyfalaf ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru a gwella'r cyfleusterau presennol, byddai Ysgol Calon Cymru yn cau ei champws yn Llanfair-ym-Muallt ac yn gweithredu o gampws Llandrindod yn unig.

    - Byddai disgyblion o gampws Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt yn symud i safle Llandrindod.
    - Byddai'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn cymryd drosodd y cyfan o safle Llanfair-ym-Muallt.

1.3 Cefnogir yr adroddiad gan yr atodiadau canlynol:

Atodiad A – Arfarniad Opsiynau – Cynlluniau ar gyfer Ysgol Calon Cymru
Atodiad B – Asesiad Effaith

2. Cefndir

Cyd-destun Strategol

2.1 Ar 7 Mai 2024, ystyriodd a chymeradwyodd Cabinet y Cyngor Raglen Amlinellol Strategol (SOP) newydd, a oedd yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion fel rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, cyflwynwyd y SOP i Lywodraeth Cymru a chafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol yn haf 2024.

2.2 Mae'r SOP newydd yn cynnig opsiwn a ffefrir sy'n cynnwys buddsoddiad cyfalaf mewn perthynas â champysau presennol Ysgol Calon Cymru yn Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt. Mae'n nodi cynllun i ddarparu buddsoddiad sylweddol yn adeilad Ysgol Calon Cymru yn Llandrindod, a buddsoddiad i ddarparu ysgol Gymraeg newydd bob oed yn Llanfair-ym-Muallt. Fodd bynnag, rhaid nodi bod cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus yn dibynnu ar ganlyniad proses ad-drefnu statudol ysgolion, gan gynnwys ymgynghori. Y dyddiad agor disgwyliedig ar gyfer disgyblion a amlinellir yn y SOP yw 2028/29 ar gyfer y ddau gampws. Bydd cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer campysau Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod yn destun arfarniad opsiynau a ddatblygwyd yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, a fydd yn gofyn i'r Cabinet a Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r achosion busnes perthnasol i sicrhau cyllid drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Byddai unrhyw gynlluniau buddsoddi cyfalaf hefyd yn gofyn am adnabod cyfraniad y Cyngor.

2.3 Mae'r SOP diwygiedig yn cynnwys y trosolwg canlynol o gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Calon Cymru:

'Mae Ysgol Calon Cymru yn ysgol a sefydlwyd yn 2018, yn dilyn ad-drefnu Ysgol Uwchradd Llandrindod ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithredu o gampysau y ddwy ysgol flaenorol. Mae campws Llandrindod yn amod C, ac mae campws Llanfair-ym-Muallt yn amod B.

Yn flaenorol, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ailfodelu'r bloc Dylunio a Thechnoleg ar gampws Llandrindod, ond mae'r cwmpas bellach yn ehangu i gynnwys trawsnewid yr ysgol gyfan.

Mae Achos Amlinellol Strategol diwygiedig wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 29 Medi 2020. Y ffordd orau ymlaen yw datblygu cyfleusterau newydd ar gyfer ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Ysgol Calon Cymru yn Llandrindod a sefydlu ysgol Gymraeg newydd bob oed yn Llanfair-ym-Muallt ar y campws presennol, a fyddai angen rhywfaint o ailfodelu i ddod â chyfleusterau blynyddoedd cynnar a chyfleusterau cynradd i mewn. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r galw am ddarparwr uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig yng Nghanolbarth a De Powys.

Bydd angen cwblhau proses ad-drefnu ysgolion statudol.'

2.4 Mae'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Calon Cymru fel yr amlinellwyd yn y SOP yn adlewyrchu'r dyheadau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-32, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26 Gorffennaf 2022 ac a gymeradwywyd wedyn gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad at ddarpariaeth eilaidd sy'n bodloni'r diffiniad o gategori 'cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru.

2.5 Mae'r CSCA yn nodi'r canlynol:

'Yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun hwn, bydd yr awdurdod yn cyflawni'r camau canlynol i wella mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr Powys:

- *'Cwblhau y prosesau statudol sydd eu hangen i ddarparu mynediad i ddarpariaeth eilaidd sy'n bodloni'r diffiniad o'r categori 'cyfrwng Cymraeg' mewn 2 leoliad arall ym Mhowys. Bydd hyn yn canolbwyntio ar Ysgol Bro Caereinion sydd newydd ei sefydlu ac ardal Ysgol Calon Cymru.'*

2.6 Cafodd y broses statudol i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion ei chynnal yn ystod 2023/24, felly mae angen symud ymlaen nawr gyda'r cynlluniau ar gyfer ardal Ysgol Calon Cymru, er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y CSCA.

Yr Achos dros Newid

2.7 Mae Ysgol Calon Cymru yn ysgol 11-18 sy'n gweithredu ar draws dau gampws yn Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt. Mae'n ysgol ddwy ffrwd, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael ei darparu ar gampws Llanfair-ym-Muallt, a darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig yn cael ei darparu ar gampws Llandrindod.

2.8 Mae niferoedd disgyblion dau gampws yr ysgol fel a ganlyn[1]:

	Bl. 7	Bl. 8	Bl. 9	Bl.10	Bl.11	Bl.12	Bl.13	Cyfanswm
Campws Llandrindod	91	102	79	98	95	30	25	520
Campws Llanfair-ym-Muallt	73	81	95	85	62	22	17	435
Cyfanswm	164	183	174	183	157	52	42	955

2.9 Mae niferoedd disgyblion Cymraeg ym mlynyddoedd 7 – 11 yn yr ysgol fel a ganlyn[2]:

Bl. 7	Bl. 8	Bl. 9	Bl. 10	Bl. 11	Cyfanswm
23	25	21	15	14	98

2.10 Mae rhagor o ddata yn ymwneud ag Ysgol Calon Cymru wedi'i gynnwys yn y ddogfen asesu opsiynau, sydd ynghlwm fel Atodiad A.

2.11 Sefydlwyd Ysgol Calon Cymru yn 2018 yn dilyn uno Ysgol Uwchradd Llandrindod ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, fel rhan o Raglen Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd flaenorol y Cyngor. Fodd bynnag, tra bod yr ysgol ar daith welliant, mae'n amlwg ers nifer o flynyddoedd bod model dau safle'r ysgol yn achosi heriau o ran gallu'r ysgol i barhau i wella. Mae'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Calon Cymru wedi'u hamlinellu isod.

Ansawdd y ddarpariaeth

2.12 Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r ysgol ym mis Hydref 2022. Yn dilyn yr arolygiad hwn, gosododd Estyn yr ysgol yng nghategori Adolygiad Estyn.

2.13 Cynhaliwyd ymweliad monitro ym mis Medi 2024, ac roedd canlyniad yr ymweliad fel a ganlyn:

[1] Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, Medi 2024
[2] Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, Rhagfyr 2024

'Bernir nad yw Ysgol Calon Cymru wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgaredd dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwella'r ysgol hon yn sylweddol '

2.14 Mae'n amlwg nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Calon Cymru yn bodloni dyheadau'r Cyngor ar gyfer darpariaeth addysg ar hyn o bryd, ac mae model presennol yr ysgol ar ddau leoliad yn achosi heriau o ran gallu'r ysgol i barhau i wella. Mae dyblygu'r ddarpariaeth ar draws dau safle yn golygu nad yw costau, ymdrech ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Pwysau cyllidebol

2.15 Roedd gan Ysgol Calon Cymru ddiffyg cronnus o £1.7 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Yn seiliedig ar gyflwyniad cyllideb 1 Mai 2024, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i £2.1 miliwn dros y 3 blynedd nesaf pe na bai camau ataliol pellach. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod ac wedi gwneud cynnydd sylweddol i liniaru'r diffygion yn ystod y flwyddyn a ragwelwyd. Mae'r cynllun diweddaraf a drafodwyd gyda'r ysgol yn amcangyfrif tanwariant yn ystod y flwyddyn o 2025/26 ymlaen a fydd yn dechrau lleihau'r diffyg cronnus.

2.16 Ar hyn o bryd mae pob ysgol yn gweithio gyda'r lefelau ariannu sydd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26 ac mae angen cyflwyno cais ffurfiol erbyn 1 Mai 2025.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

2.17 Ar hyn o bryd darperir darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gampws Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt. Yn ystod blwyddyn ysgol 2024/25, mae niferoedd disgyblion cyfrwng Cymraeg Ysgol Calon Cymru fel a ganlyn[3]:

Bl. 7	Bl. 8	Bl. 9	Bl. 10	Bl. 11	Cyfanswm
23	25	21	15	14	98

2.18 Er bod niferoedd disgyblion yn uwch ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 nag ym mlynyddoedd 10 ac 11, mae niferoedd cyffredinol disgyblion ffrwd Gymraeg yr ysgol wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n achosi her gynyddol i'r ysgol o ran darparu mynediad at

[3] Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, Medi 2024

ddarpariaeth gynhwysfawr, a chynnal ethos Cymraeg i sicrhau y gall disgyblion barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu haddysg.

2.19 Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu addysg ym Mhowys, ac un o'r rhain yw 'Anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg'. O ran darpariaeth uwchradd, dywed y strategaeth: 'Mae maint a chyfran y ffrydiau uwchradd yn amrywio'n sylweddol ar draws y sir, ac mae'r ystod o bynciau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn amrywio'n sylweddol. Mae'r cynnig cwricwlwm yn gynyddol gyfyngedig i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg, ac mae pryder sylweddol ymhlith y proffesiwn ynglŷn ag ymrwymiad yr awdurdod i ddysgwyr sy'n astudio yn y Gymraeg.'

2.20 Mae penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud a fydd yn sicrhau y bydd disgyblion mewn ardaloedd eraill ym Mhowys yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg cynhwysfawr yn y dyfodol, yn dilyn y prosesau statudol diweddar i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ac Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg yn raddol. Gall disgyblion sy'n byw yn Ne Powys gael mynediad at ddarparwyr cyfrwng Cymraeg dynodedig sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol eraill, e.e. Ysgol Ystalyfera Bro Dur, felly disgyblion yng Nghanolbarth Powys bellach yw'r unig ddisgyblion sy'n methu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig.

2.21 Mae'n nodedig hefyd nad oes mynediad ar hyn o bryd i ddarpariaeth gynradd Gymraeg ddynodedig yn nalgylch Ysgol Calon Cymru chwaith - darperir darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd mewn nifer o ffrydiau cyfrwng Cymraeg.

2.22 Nid yw'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn Ysgol Calon Cymru ei hun a'r dalgylch ehangach yn bodloni dyheadau'r Cyngor ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel yr amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg a'r CSCA. Mae sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr drwy gydol eu gyrfaoedd addysgol yn sbardun allweddol i'r prosiect hwn.

Cyflwr ac addasrwydd adeiladau

2.23 Mae costau cynnal a chadw ôl-groniad sylweddol ar y ddau safle. Cynhaliwyd arolygon cyflwr wedi'u diweddaru ar y ddau safle yn 2024 a oedd yn nodi, yn seiliedig ar fethodoleg raddio wedi'i diweddaru, bod y ddau safle bellach yn cael eu hasesu fel Cyflwr B – Boddhaol ond gyda mân ddirywio. Fodd bynnag, mae'r arolygon hefyd yn nodi costau cynnal a chadw ôl-groniad sylweddol ar y ddau safle – mae costau cynnal a chadw ôl-groniad o tua £2.4m wedi'u hamcangyfrif ar gampws Llandrindod ac amcangyfrifir bod costau cynnal a chadw ôl-groniad o tua £1.5m wedi'u hamcangyfrif ar gampws Llanfair-ym-Muallt. Mae'r

ffigurau hyn yn eithrio unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw ôl-groniad a nodwyd.

2.24 Er bod yr arolygon cyflwr wedi'u diweddaru wedi nodi gwelliant yn yr asesiad cyflwr cyffredinol mewn perthynas â safle Llandrindod yn benodol, mae hyn oherwydd newid i'r fethodoleg graddio a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

2.25 Nid oedd yr asesiadau cyflwr wedi'u diweddaru yn ystyried addasrwydd adeiladau Ysgol Calon Cymru – mae'r rhain yn cael eu hasesu fel Cyflwr C – Gwael.

2.26 Barn y Cyngor yw nad yw'r adeiladau presennol, na champws Llandrindod yn arbennig, yn bodloni dyheadau'r Cyngor ar gyfer addysg, fel yr amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys.

Arfarniad Opsiynau

2.27 Mae arfarniad opsiynau wedi'i gynnal i ystyried opsiynau er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Calon Cymru. Mae hyn wedi'i gynnwys fel atodiad A.

2.28 Mae'r ddogfen arfarnu opsiynau yn cynnwys y canlynol:

- Trosolwg o'r cyd-destun strategol
- Data ynglŷn ag Ysgol Calon Cymru
- Ystyried pam fod angen newid yn Ysgol Calon Cymru
- Asesiad o opsiynau llywodraethu posibl
- Asesiad o opsiynau categori iaith posibl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair-ym-Muallt
- Asesiad o opsiynau a fyddai'n galluogi'r ysgol cyfrwng Cymraeg i gael ei sefydlu cyn cwblhau'r buddsoddiad cyfalaf arfaethedig ar y ddau safle
- Asesiad o opsiynau ar gyfer cyflwyno'n raddol
- Dynodi'r opsiwn a ffefrir, sy'n cyfuno'r elfennau a restrir uchod
- Ystyried ymhellach Cam 1 a Cham 2 o'r opsiwn a ffefrir yn erbyn ffactorau a restrir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) fel ffactorau i'w hystyried wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion.

2.29 Yn seiliedig ar yr arfarniadau opsiynau a gynhaliwyd, mae'r papur yn nodi'r opsiwn a ffefrir fel yn ganlynol:

Cam 1 (Medi 2027):

- Sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (4-18) ar gampws presennol Ysgol Calon Cymru Llanfair-ym-Muallt.

    - I ddechrau, byddai'r ysgol yn rhannu campws Llanfair-ym-Muallt gydag Ysgol Calon Cymru, gan ddefnyddio rhan o'i hadeilad a rhannu rhai cyfleusterau.
    - Byddai hwn yn drefniant dros dro hyd nes y bydd buddsoddiad cyfalaf wedi bod ar safle Llandrindod o dan Cam 2.

- Newid categori iaith Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i Saesneg.

    - Byddai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn symud i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed.

- Newid categori iaith Ysgol Calon Cymru o ddwy ffrwd i gyfrwng Saesneg.

    - Byddai disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027 yn trosglwyddo i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed. Byddai ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Medi 2029.

Cam 2 (Medi 2029 ar y cynharaf):

- Yn dilyn buddsoddiad cyfalaf ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru a gwella'r cyfleusterau presennol, byddai Ysgol Calon Cymru yn cau ei champws Llanfair-ym-Muallt ac yn gweithredu o gampws Llandrindod yn unig.

    - Byddai disgyblion o gampws Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt yn symud i safle Llandrindod.
    - Byddai'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn cymryd drosodd y cyfan o safle Llanfair-ym-Muallt.

2.30 Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Byddai'n cadw'r ddarpariaeth uwchradd yn Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt
- Byddai'n rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd yn Llandrindod gan y byddai Ysgol Calon Cymru yn parhau fel y darparwr
- Byddai'n darparu mwy o fàs o ddysgwyr cyfrwng Saesneg ar un campws
- Gellid darparu cwricwlwm ehangach i ddysgwyr cyfrwng Saesneg
- Ni fyddai angen dyblygu darpariaeth cyfrwng Saesneg ar draws dau safle
- Byddai ysgol Gymraeg newydd bob oed yn cael ei sefydlu a fyddai'n rhoi cyfle i 'ailfrandio' darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Canol Powys
- Byddai ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn darparu gwell profiad cyfrwng Cymraeg

- Byddai'n darparu mynediad i ddarpariaeth gynradd Gymraeg ddynodedig
- Byddai model cyfrwng Cymraeg pob oed yn hybu pontio i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg
- Gellid darparu cwricwlwm Cymraeg ehangach
- Byddai dwy ysgol ar wahân o bosibl yn fwy deniadol i ddarpar benaethiaid, athrawon a staff cymorth
- Mae'r dull gweithredu dau gam yn galluogi'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg i gael ei sefydlu ar gampws Llanfair-ym-Muallt o'r cychwyn cyntaf gan nad oes digon o le ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru.

2.31 Mae'r opsiwn a ffefrir yn cyd-fynd â'r weledigaeth a'r egwyddorion arweiniol fel y nodir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030.

2.32 Mae gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn ddibynnol ar y broses statudol a amlinellir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), sydd ar gael ar-lein: cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf

2.33 Cydnabyddir bod darpariaeth hamdden ym mhob un o ddau gampws Ysgol Calon Cymru ar hyn o bryd. Bydd angen i gynlluniau'r Cyngor ar gyfer yr ysgol gyd-fynd â rhaglen Powys Gynaliadwy, sy'n nodi Llandrindod fel tref graidd, ac yn arbennig adolygiad y Cyngor o'r ddarpariaeth hamdden yn y sir.

2.34 Bydd angen i'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Calon Cymru hefyd gyd-fynd ag unrhyw gynlluniau yn y dyfodol sy'n ymwneud â darpariaeth ôl-16 ym Mhowys. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r ddarpariaeth ôl-16, a byddai unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad a fyddai'n effeithio ar y ddarpariaeth yn yr ardal a wasanaethir ar hyn o bryd gan Ysgol Calon Cymru yn destun proses statudol arall. Nid yw bwrw ymlaen â'r cynigion presennol ar gyfer Ysgol Calon Cymru yn atal yr ysgol rhag bod yn rhan o gynigion yn y dyfodol.

2.35 Ni fyddai'r cynigion ar gyfer Ysgol Calon Cymru yn arwain at unrhyw newidiadau i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal, heblaw'r rheiny a leolir yn Llanfair-ym-Muallt; bydd ffrydiau cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael eu darparu yn Ysgol Trefonnen ac Ysgol yr E. Yng Ngh. Rhaeadr.

Gweithredu a Chyflwyno'n Raddol

2.36 Byddai sefydlu'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol i gefnogi'r pontio a chyfyngu ar darfu ar ddisgyblion. Y cynnig yw, pan fydd yr ysgol yn agor ym mis Medi 2027, ei bod yn darparu addysg i ddisgyblion oed cynradd a Chyfnod Allweddol 3.

2.37 Byddai disgyblion o ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn trosglwyddo i gam cynradd yr ysgol newydd.

2.38 Ar lefel uwchradd, byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddechrau ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9, gyda disgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Calon Cymru. Byddai disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru yn parhau ar gofrestr Ysgol Calon Cymru i sicrhau parhad a chyfyngu ar aflonyddwch yn ystod y blynyddoedd arholiadau pwysig hyn.

2.39 Y disgwyl yw y byddai Ysgol Calon Cymru a'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cydweithio yn ystod y cyfnod pontio hwn er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r arlwy cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r dysgwyr hyn. Byddai hyn yn cynnwys rhannu staff ac adnoddau.

2.40 Byddai'r dull gweithredu graddol hwn yn cefnogi twf cynaliadwy y cynnig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Cyfnod Allweddol 4 yn cael ei darparu gan yr ysgol Gymraeg newydd o fis Medi 2028 a byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg Cyfnod Allweddol 5 yn cael ei darparu o fis Medi 2030 ymlaen wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.

2.41 Ym mis Medi 2029, byddai holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru yn trosglwyddo i gampws Llandrindod, yn amodol ar gwblhau'r gwaith cyfalaf gofynnol. Byddai Ysgol Calon Cymru yn dod yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg gyda'r holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu gan yr ysgol Gymraeg newydd yn Llanfair-ym-Muallt.

2.42 Byddai gwaith cyfalaf yn cael ei wneud ar gampws Llanfair-ym-Muallt cyn mis Medi 2027 i greu'r ddarpariaeth gynradd newydd. Bydd y prif adeilad yn cael ei wahanu o'r cyfnod uwchradd gyda'i le chwarae allanol ei hun. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ad-drefnu ac ailwampio'r cyfleusterau presennol, sy'n cynrychioli buddsoddiad o tua £5 miliwn. Byddai lle hefyd ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar.

2.43 Mae cynllun safle lefel uchel wedi'i ddatblygu i amlygu lle byddai'r ddarpariaeth cynradd a blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnal. Byddai'r blynyddoedd cynnar yn cael lle o fewn yr ardal oren, byddai'r cynradd yn cael lle yn yr ardal werdd ar y llawr gwaelod, a byddai eilradd yn cael lle yn yr ardal las. Mae ardaloedd porffor a choch yn dynodi mannau a rennir neu amlbwrpas.



Capasiti a Dalgylch arfaethedig

Cynradd

2.44 Cynigir y byddai'r ysgol Gymraeg newydd yn darparu 210 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg, gyda Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 30. Ar hyn o bryd mae 119 o ddisgyblion yn mynychu'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt. Byddai'r capasiti arfaethedig yn darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn Llanfair-ym-Muallt, gan gefnogi dyhead y Cyngor i gynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn CSCA y Cyngor.

2.45 Byddai'r dalgylch arfaethedig ar gyfer cyfnod cynradd yr ysgol Gymraeg newydd yr un fath â'r dalgylch presennol ar gyfer ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt.

Uwchradd

2.46 Cynigir y byddai'r ysgol Gymraeg newydd yn darparu 300 o leoedd uwchradd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7-11, gyda Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 60. Byddai hyn yn darparu digon o gapasiti i ateb y galw o fewn y dalgylch, a byddai hefyd yn galluogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

2.47 Byddai'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn darparu 100 o leoedd ôl-16 o fis Medi 2030.

2.48 Mae digon o le ar safle Llanfair-ym-Muallt i gynyddu'r capasiti yn y dyfodol pe bai'r galw am leoedd yn cefnogi hynny.

2.49 Byddai'r dalgylch arfaethedig ar gyfer y cyfnod uwchradd yr un fath â'r dalgylch presennol ar gyfer ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Calon Cymru, sy'n cynnwys dalgylchoedd y ffrydiau cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Eglwys yng Nghymru Rhaeadr ac Ysgol Trefonnen yn ogystal ag Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt.

Niferoedd rhagamcanol

2.50 Mae'r niferoedd a ragwelir ar gyfer cam uwchradd yr ysgol Gymraeg newydd yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu'r 3 ffrwd Gymraeg gynradd yn y dalgylch ar hyn o bryd. Mae niferoedd disgyblion yn y tair ffrwd Gymraeg hyn fel a ganlyn[4]:

	R	Bl 1	Bl 2	Bl 3	Bl 4	Bl 5	Bl 6	Cyfanswm
Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt	23	15	19	14	19	13	16	119
Ysgol Gynradd E. Yng Ngh. Rhaeadr	5	23	10	14	7	11	11	81
Ysgol Trefonnen	13	14	5	10	12	11	14	79
Cyfanswm	**41**	**52**	**34**	**38**	**38**	**35**	**41**	**279**

2.51 Pe byddai'r disgyblion hyn i gyd yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Llanfair-ym-Muallt, byddai niferoedd yn y cyfnod uwchradd yn yr ysgol Gymraeg newydd o fis Medi 2027 ymlaen fel a ganlyn:

	Bl 7	Bl 8	Bl 9	Bl 10	Bl 11	Cyfanswm
Medi 2027	38	35	41	AMH	AMH	**114**
Medi 2028	38	38	35	41	AMH	**152**
Medi 2029	34	38	38	35	41	**186**
Medi 2030	52	34	38	38	35	**197**
Medi 2031	41	52	34	38	38	**233**

2.52 Er y cydnabyddir nad yw pob disgybl sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd Gymraeg yn y dalgylch yn trosglwyddo ar hyn o bryd i ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Calon Cymru, rhagwelir y byddai

[4] Canolfan Athrawon, 8 Tachwedd 2024 (Dyddiad Cyfrif Cyllid)

sefydlu darpariaeth Gymraeg ddynodedig gyda chynnig Cymraeg cryfach yn arwain at gynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

2.53 Gallai'r ysgol Gymraeg newydd hefyd ddenu ceisiadau o'r tu allan i ddalgylch presennol Ysgol Calon Cymru gan rieni/gofalwyr sy'n chwilio am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dynodedig.

2.54 Byddai darpariaeth Trochi (trochi Cymraeg) hefyd ar gael yn yr ardal i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg newydd, a fyddai'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion nad ydynt ar hyn o bryd yn cael mynediad i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i wella eu sgiliau Cymraeg i'w galluogi i symud i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

3. Cyngor

3.1 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymarfer arfarnu opsiynau, cyngor swyddogion yw bod y Cabinet yn cymeradwyo dechrau'r broses statudol ar y cynigion canlynol:

Cam 1 (Medi 2027):

- Sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (4-18) ar gampws presennol Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt.
    - I ddechrau, byddai'r ysgol yn rhannu campws Llanfair-ym-Muallt gydag Ysgol Calon Cymru, gan ddefnyddio rhan o'i hadeilad a rhannu rhai cyfleusterau.
    - Byddai hwn yn drefniant dros dro hyd nes y bydd buddsoddiad cyfalaf wedi bod ar safle Llandrindod o dan Cam 2.

- Newid categori iaith Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i gyfrwng Saesneg.
    - Byddai disgyblion yn ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn symud i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed.

- Newid categori iaith Ysgol Calon Cymru o ddwy ffrwd i gyfrwng Saesneg.
    - Byddai disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027 yn trosglwyddo i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed. Byddai ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Medi 2029.

Cam 2 (Medi 2029 ar y cynharaf):

- Yn dilyn buddsoddiad cyfalaf ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru a gwella'r cyfleusterau presennol, byddai Ysgol Calon Cymru yn cau ei champws yn Llanfair-ym-Muallt ac yn gweithredu o gampws Llandrindod yn unig.

    - Byddai disgyblion o gampws Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt yn symud i safle Llandrindod.
    - Byddai'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn cymryd drosodd y cyfan o safle Llanfair-ym-Muallt.

3.2 Mae'r rhesymau dros hyn wedi'u nodi yn 2.30 uchod.

3.3 Pe bai'r argymhelliad i ddechrau'r broses statudol yn cael ei gymeradwyo, rhagwelir y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

3.4 Rhaid nodi hefyd nad yw gweithredu'r cynnig hwn yn atal ysgolion rhag bod yn rhan o gynigion ad-drefnu yn y dyfodol.

3.5 Cydnabyddir y bydd angen cynnal adolygiad pellach o'r ddarpariaeth gynradd sy'n weddill yn nalgylch Ysgol Calon Cymru hefyd, er mwyn nodi ffordd ymlaen a ffefrir ar gyfer y dalgylch cyfan. Fodd bynnag, mae'r prif fater yn y dalgylch hwn ar hyn o bryd yn ymwneud ag Ysgol Calon Cymru. Cynghorir felly bod y broses statudol o ran cynlluniau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Calon Cymru yn cael ei chynnal yn gyntaf, a bod adolygiad dalgylch o ddalgylch Ysgol Calon Cymru yn cael ei gynnal unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch a ddylid symud ymlaen â'r cynlluniau hyn ai peidio ar ôl cwblhau'r broses statudol. Dyma fydd Cam 3 cynlluniau'r Cyngor ar gyfer dalgylch Ysgol Calon Cymru. Disgwylir y bydd hyn yn dechrau yn 2026 fan bellaf.

3.6 Gellir bwrw ymlaen â chynigion unigol eraill hefyd cyn dechrau'r adolygiad dalgylch pe bai angen ymateb i amgylchiadau lleol.

4. Goblygiadau Adnoddau

Refeniw: gweithredu llawn

4.1 Yn seiliedig ar weithredu cam 2 y cynnig yn llawn, mae'r arbedion refeniw blynyddol parhaus o'r fformiwla ariannu ysgolion oddeutu £146k, unwaith y bydd y disgyblion cyfrwng Saesneg i gyd wedi symud i safle Llandrindod.

4.2 Amcangyfrifir bod costau trafnidiaeth ar ôl gweithredu'n llawn (cam 2) yn £64k ychwanegol ac mae'r costau'n seiliedig ar amseroedd agor fesul cam ar gyfer y ddau safle er mwyn defnyddio trafnidiaeth bresennol. Bydd hyn hefyd yn destun newid yn dibynnu ar faint fydd yn aros ar gyfer Ôl-16 yn y ddau safle.

4.3 Amcangyfrifir na fyddai unrhyw newid mewn costau arlwyo o ganlyniad i symud o'r status quo i'w gweithredu'n llawn, gan y bydd darpariaeth arlwyo yn aros ar y ddau safle. Tybir hefyd y byddai unrhyw offer cegin ychwanegol yn cael ei ariannu drwy'r prosiect cyfalaf.

4.4 Cyfanswm yr arbediad amcangyfrifedig yn dilyn gweithredu cam 2 y cynnig yn llawn yn seiliedig ar 4.1 i 4.3 yw £82k (fel y nodir yn y tabl isod).

Lwfans Fformiwla	**2030/31 Cynilo / (Cost)**
Ychwanegiad Rheoli Ysgolion Bach ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd	(£136k)
Addysg a Dysgu Ysgol Fach yn ychwanegol ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd	(£147k)
Cyfandaliad Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd	(£130k)
Nid oes angen ychwanegiad rheoli safle lluosog mwyach	£127k
Nid oes angen ychwanegiad addysgu a dysgu lluosog ar y campws mwyach	£249k
Nid oes angen ychwanegiad Dysgu ac Addysgu Llif Deuol mwyach	£306k
Gostyngiad lwfans dwyieithog o'r ysgol gynradd	£2k
Costau Eiddo Net a Chyfraddau ar gyfer y ddau safle	(£125k)
Cyfanswm amcangyfrif o arian fformiwla arbed blynyddol	**£146k**
Amcangyfrif o gostau trafnidiaeth blynyddol	(£64k)
Amcangyfrif arbediad blynyddol net	**£82k**

4.5 O ran y fformiwla ariannu ysgolion, bydd Cam 1 yn gofyn am gyllid ychwanegol o £164k yn 2027-28 a £113k arall yn 2028-29, sef cyfanswm o £277k. Mae hyn wedi'i dorri i lawr yn y tabl isod.

Lwfans Fformiwla	**2027/28 Arbed / (Cost)**	**2028/29 Arbed / (Cost)**
Lwmp-Swm ALNCo ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd	(£76k)	(£54k)
Ysgol Bach yn ychwanegu at yr ysgol Gymraeg newydd	(£90k)	(£61k)
Nid oes angen Lwfans Dwyieithog mwyach yn yr ysgol gynradd	£1k	£1k

Lwfans Dwyieithog ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd	(£3k)	(£2k)
Ychwanegiadau Tir	£4k	£3k
Cyfanswm	**(£164k)**	**(£113k)**

4.6 Cam 2 – ar ôl i Ysgol Calon Cymru symud yn llawn i safle newydd Llandrindod, mae'r gofynion fformiwla ariannu ysgolion yn lleihau, sy'n golygu y gellir gwireddu arbediad o £248k yn gyffredinol, yn 2029-30. Amcangyfrifir arbediad pellach o £175k ar gyfer 2030-31 o ganlyniad i effaith blwyddyn lawn y gostyngiad yn yr angen cyffredinol i ddarparu ychwanegiadau i'r 3 safle a 2 ffrwd, sy'n cael ei leihau gan y cynnydd adeiladu diwygiedig sydd ei angen. Felly, mae'r ddau gam yn darparu arbediad refeniw parhaus blwyddyn gyfan o gyllid fformiwla yr ysgolion o £146k. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y tabl isod gyda'r effaith ar draws y blynyddoedd perthnasol, nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys ym model cyllideb 5 mlynedd y Cyngor ar hyn o bryd.

Blwyddyn	**Swm (cynilo / (cost))**
Cam 1	
2027-28	(£164k)
2028-29	(£113k)
Cam 2	
2029-30	£248k
2030-31	£175k
Cyfanswm	**£146k**

4.7 Mae nifer y disgyblion a gasglwyd ar ddyddiad cyfrif 8 Tachwedd 2024 wedi cael eu defnyddio trwy gydol y cyfrifiadau yn y tablau uchod. Mae'r gofynion cyllido terfynol yn destun cadarnhad terfynol o rifau gwirioneddol bob blwyddyn ac mae unrhyw ddemograffeg yn newid. Nid yw'r modelu yn cynnwys unrhyw ragdybiaethau ynghylch twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd newid yn newis rhieni ac efallai y bydd amrywiadau yn yr ysgolion hynny yr effeithir arnynt, a fydd yn cael eu modelu gyda phob ysgol unigol a phob proses gosod cyllideb.

4.8 Yn sylfaenol, mae cyllid ysgolion yn cael ei yrru gan nifer y disgyblion ac mae hynny'n berthnasol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ond dim ond pan fydd y nifer gorau posibl o ddisgyblion yn yr ysgolion hynny y byddwch yn gwneud y mwyaf o gost-effeithiolrwydd y modelau hynny.

4.9 Defnyddiwyd y fformiwla ariannu newydd a fydd yn cael ei gweithredu'n llawn yn 2025-26 fel sail ar gyfer y costau ynghyd â niferoedd disgyblion o ddyddiad cyfrif disgyblion 8 Tachwedd 2024 (a ddefnyddir i ariannu pob ysgol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26).

4.10 Mae'r costau a wnaed yn ddarostyngedig i ddiwygiad i'r Cynllun Ariannu ysgolion a fyddai'n ceisio addasu cyllidebau dirprwyedig yr ysgolion hyn yn ystod y flwyddyn/blynyddoedd lle maent yn mynd trwy newid trawsnewidiol a bod newidiadau rhagnodedig yn cael eu gwneud e.e. categori iaith, ond lle nad ydynt yn ysgolion newydd.

4.11 O fewn y gost uchod, rhagdybiwyd bod yr elfen ÔI-16 yn parhau gydag amlen ariannu'r grant ÔI-16 a ddarparwyd gan Medr.

4.12 Bydd angen modelu Cam 3 os bydd cynigion pellach yn cael eu cyflwyno.

Cyfalaf

4.13 Roedd y Cynllun Amlinellol Strategol (SOP) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cynnwys buddsoddiad sylweddol ar gampysau Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt. Roedd y SOP yn seiliedig ar fuddsoddiad o hyd at £107 miliwn ar draws y ddau safle a rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu 65% o'r costau cyfalaf a Phowys yn ariannu'r 35% sy'n weddill. Os yw cyfraniad y Cyngor tuag at y cynllun hwn i'w ariannu drwy fenthyca, gan nad oes unrhyw gyllid arall wedi'i nodi ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod y gost i gyllideb refeniw'r Cyngor oherwydd y benthyciad hwn yn £2.06 miliwn y flwyddyn am 34 mlynedd. Gellid lleihau'r swm hwn os oes derbyniadau cyfalaf ar gael i'w defnyddio yn lle benthyca. Bydd cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer campysau Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod yn destun arfarniad opsiynau a ddatblygwyd yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r achosion busnes perthnasol i sicrhau cyllid drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

4.14 Mae'r cynllun hwn wedi'i gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ac mae effaith unrhyw ofyniad benthyca i ariannu cyfraniad y Cyngor eisoes wedi'i gynnwys yn y Model Adnoddau Ariannol (FRM). Dylid nodi, er bod yr effaith wedi'i chynnwys yn y FRM, mae bylchau sylweddol yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod sydd eto i'w datrys. Pe na bai grant Llywodraeth Cymru ar gael a'r cyngor yn ariannu'r costau llawn drwy fenthyca, amcangyfrifir bod y gost i gyllideb refeniw'r Cyngor oherwydd y benthyca hwn yn £5.89 miliwn y flwyddyn am 34 mlynedd. Gellid lleihau'r swm hwn os oes derbyniadau cyfalaf ar gael i'w defnyddio yn lle benthyca.

4.15 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) "Rwy'n nodi cynnwys yr adroddiad. Rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i ni ystyried yn ofalus gyfanswm effaith ein gwariant cyfalaf a'n penderfyniadau buddsoddi ar ein hadnoddau cyfalaf a refeniw a sut mae'r rhain yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau. Gellir lletya'r cynllun hwn o fewn

amlen ariannu presennol y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac mae ei effaith eisoes wedi'i chynnwys yn y FRM, gan nodi y bydd angen cydbwyso'r cynnig cyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod cyn i unrhyw ymrwymiadau fynd rhagddynt. Ar y sail hon gellir cefnogi'r argymhellion."

5. Goblygiadau cyfreithiol

5.1 Cyfreithiol: Gellir cefnogi'r argymhellion o safbwynt cyfreithiol

5.2 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro wedi gwneud sylwadau fel a ganlyn: Rwy'n nodi'r sylw cyfreithiol ac yn cefnogi'r argymhellion.

6. Newid yn yr Hinsawdd a Goblygiadau Natur

6.1 Byddai cynlluniau presennol y Cyngor yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf i wella'r cyfleusterau ar ddwy safle presennol Ysgol Calon Cymru, a fyddai'n fwy effeithlon o ran ynni na'r adeiladau presennol.

6.2 Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r newidiadau sy'n cael eu hystyried arwain at gynnydd mewn teithio disgyblion, yn enwedig i ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n defnyddio campws Llanfair-ym-Muallt ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach wrth i'r cynlluniau symud ymlaen.

7. Diogelu Data

7.1 Amh

8. Sylw gan aelodau(au) lleol

8.1 Darperir y sylwadau isod yn yr iaith y'u derbyniwyd gan yr aelodau lleol.

Cyng Gareth Jones, Llanelwedd; Cyng Jeremy Pugh, Llanfair-ym-Muallt; Cyng Bryan Davies, Llanafan-fawr gyda Garth; Cyng Peter James, Llanwrtyd; Cyng Deborah Edwards, Llangynllo gyda Norton:

As the local members for Builth Wells and the surrounding wards we welcome the proposed capital investment into both the Llandrindod and Builth sites of the current Ysgol Calon Cymru, but we are disappointed with the lack of detail and aspiration within the report in the following areas.

1. We are disappointed that the paper only focus' on the current Welsh Medium Catchment area of Ysgol Calon Cymru and we believe that the catchment area of the new proposed Welsh medium School should be extended to include the catchment area

of Ysgol Y Bannau in Brecon to provide larger pupil numbers in the School and to also provide those learners with a full Welsh Medium Secondary School education. It is also unclear as to whether the Catchment of Rhayader C in W School will be included in the catchment area of the proposed new Welsh Medium School in Builth.

2. Although reference is made in the report, to an upcoming report in respect to the future of Pot 16 Education in the Authority but it is unclear as to how that report will impact on the proposals being considered in this report, especially in respect to the development of Welsh medium post 16 learning opportunities in mid Powys.

3. Although entitlement is implied, we are concerned that the report does not provide a clear statement in respect to the transport entitlement that the pupils living in the current Builth Wells who wish to attend Ysgol Calon Cymru post 2029, for home to school transport to that or other English Medium Secondary Education that is the closest to their home address.

4. Having reviewed the subjects currently being taught through the Welsh Medium in KS3&4 in Ysgol Calon Cymru we are concerned that some of the core curriculum subjects including Maths and Science are currently not taught through the Welsh medium and we have concerns that the new school will not be able to attract the right quality of staff to deliver the required curriculum.

5. We are disappointed that the proposal makes no specific reference to how the cabinet intends to utilises the space released in Builth CP when the Welsh Medium Classes moves to the High School site in September 2027.

6. We are very concerned, based on experience in other areas Such as Machynlleth, that the Council has set a target date for the opening of the new school buildings in Llandrindod that are unachievable, and we would request that the Cabinet provides a detailed project plan at the consultation meetings that are proposed to commence in April 2025.

7. We note the estimated additional home to school transport costs within the report and we will be asking for the full details to back up these estimates during the initial consultation period.

In addition we are disappointed that there does not appear to have been any consideration of locating the Welsh medium School in Llandrindod and the English medium School in Builth as in our view this

option would allow both proposed schools to operate from a single site from the 1st September 2027.

This model would keep Builth CP as a Dual Stream School and Trefonnen C in W School becoming a English Medium School and the pupils in the Welsh Stream in Trefonnen joining the new Welsh Medium 4 -18 School on the current Llandrindod site.

As the local members representing the Builth areas we will continue to represent the residents of our area through the consultation process to ensure that the short, medium and long term educational model that evolves provides the best learning opportunities to all the learners in the area through the language of their choice.

Cyng Josie Ewing, De Llandrindod

As a member for Llandrindod – I only have positive comments to make regarding the YCC rebuild on the Llandrindod site. I welcome this news of change for the future of Llandrindod campus.

Cyng Angela Davies, Rhaeadr:

I am in full support of Welsh medium (or rather Welsh bilingual education) and welcome the introduction of a Welsh bilingual high school in the mid Powys catchment area. This provision will support the ongoing Welsh bilingual education of pupil's from Rhayader primary school and I believe this provision could increase the number of parents choosing Welsh bilingual education for their primary aged children.

However, I am not yet clear what impact this might have on pupil numbers in Rhayader primary school as the transport element is not clearly defined and some parents may choose the all-through school option. Also, I am unclear what impact this will have on the already difficult job of recruiting Welsh language teachers. And I am not clear what the financial implications are for the council by these changes. It might have been useful to see the long-term overall plan for education across the county. These questions may be answered in the learning and skills scrutiny session tomorrow, so it is unfortunate that this response had to be provided prior to that meeting.

But as stated I fully support the ambition to increase Welsh language bilingual education provision.

Cyng Beverley Baynham, Llanandras:

As the elected member for the Presteigne Ward it is difficult for me to comment on the proposals for Ysgol Calon Cymru, however I do recognise the need to provide Welsh medium education in Powys. In

principle I support the provision for all young people in Powys to be educated through the medium of Welsh if they wish.

Transport arrangements need to be taken into consideration for those pupils in the Presteigne/Knighton area who wish to be educated in the Welsh Language, and if this decision is approved, I would like assurance that this will be available.

9. Asesiad Effaith

9.1 Mae asesiad effaith cychwynnol mewn perthynas â'r argymhelliad ynghlwm fel Atodiad B. Mae'r asesiad effaith yn ystyried effaith y cynnig ar nodau llesiant Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

9.2 Mae'r crynodeb o'r asesiad effaith fel a ganlyn:

Mae'r asesiad effaith hwn yn awgrymu bod effaith Cam 1 y cynnig yn gadarnhaol ar y cyfan:

- *Mae gwella'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghanolbarth Powys yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r datblygiad hwn. Ar hyn o bryd mae pryderon sylweddol am lefel y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai gweithredu'r ffordd ymlaen a ffefrir yn arwain at sefydlu ysgol Gymraeg bob oed yn Llanfair-ym-Muallt, gan alluogi dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn trwy gydol eu gyrfaoedd addysgol, a'u galluogi i ddod yn hyderus ddwyieithog, gyda sgiliau Cymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg hyn trwy gydol eu hoes.*
- *Nid yw Cam 1 y cynigion yn mynd i'r afael yn llawn â heriau'r model cyflenwi presennol yn Ysgol Calon Cymru gan y byddai angen i'r ysgol barhau i weithredu ar draws dau safle hyd nes y bydd Cam 2 yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, byddai newid i ysgol cyfrwng Saesneg yn galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar wella safonau addysgol mewn ysgol un ffrwd iaith.*
- *Byddai Ysgol Calon Cymru, yr ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn gweithredu fel ysgolion un iaith ac felly ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy iaith, a fyddai hefyd yn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau yn y tymor hir.*

Mae'r asesiad effaith hwn yn awgrymu bod effaith Cam 2 y cynnig yn gadarnhaol ar y cyfan:

- *Byddai darparu buddsoddiad cyfalaf i wella'r cyfleusterau yn y ddau safle presennol yn Ysgol Calon Cymru yn mynd i'r afael â llawer o faterion yn ymwneud â chyflwr gwael yr adeiladau.*

- *Byddai cydleoli'r holl ddisgyblion cyfrwng Saesneg a disgyblion cyfrwng Cymraeg ar wahanol safleoedd yn galluogi'r ysgol i ddarparu lefel uwch o gyfleoedd addysgol i bob disgybl.*

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a brofir gan Ysgol Calon Cymru o weithredu fel ysgol uwchradd ddeuol, a byddai'n galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar wella safonau addysg mewn ysgol un ffrwd, un safle mewn adeilad gwell.

9.3 Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo dechrau'r broses statudol mewn perthynas â'r argymhelliad, byddai'r asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses, er mwyn ystyried yr adborth a dderbyniwyd.

10. Argymhelliad

10.1 Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r broses statudol ar y cynigion canlynol:

Cam 1 (Medi 2027):

- Sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (4-18) ar gampws presennol Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt.
    - I ddechrau, byddai'r ysgol yn rhannu campws Llanfair-ym-Muallt gydag Ysgol Calon Cymru, gan ddefnyddio rhan o'i hadeilad a rhannu rhai cyfleusterau.
    - Byddai hwn yn drefniant dros dro hyd nes y bydd buddsoddiad cyfalaf wedi bod ar safle Llandrindod o dan Cam 2.

- Newid categori iaith Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt i Saesneg.
    - Byddai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt yn symud i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed.

- Newid categori iaith Ysgol Calon Cymru o ddwy ffrwd i gyfrwng Saesneg.
    - Byddai disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru ym mis Medi 2027 yn trosglwyddo i'r ysgol Gymraeg newydd bob oed. Byddai ffrwd Gymraeg Ysgol Calon Cymru yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Medi 2029.

Cam 2 (Medi 2029 ar y cynharaf):

- Yn dilyn buddsoddiad cyfalaf ar gampws Llandrindod i ddarparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru a gwella'r cyfleusterau

presennol, byddai Ysgol Calon Cymru yn cau ei champws yn Llanfair-ym-Muallt ac yn gweithredu o gampws Llandrindod yn unig.

- Byddai disgyblion o gampws Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt yn symud i safle Llandrindod.
- Byddai'r ysgol bob oed cyfrwng Cymraeg yn cymryd drosodd y cyfan o safle Llanfair-ym-Muallt.

Swyddog Cyswllt:	Sarah Astley
Ffôn:	01597 826265
E-bost:	sarah.astley@powys.gov.uk
Pennaeth Gwasanaeth:	Marianne Evans, Pennaeth Trawsnewid Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol:	Richard Jones, Cyfarwyddwr Addysg